Higher Education Wales Cymru Addysg Uwch

# Y Pwyllgor Menter a Dysgu
**EL(3) 20-08 (p2) : 10 Gorffennaf 2008**

# Prifysgolion yn ysgogi datblygiad yr Economi Wybodaeth yng Nghymru

**Tystiolaeth Ysgrifenedig Derfynol Auc Ar Gyfer Y Pwyllgor Menter A Dysgu (PMD)**

Mae Addysg Uwch Cymru (AUC) yn cynrychioli buddiannau Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru ac mae'n Gyngor Cenedlaethol Universities UK. Mae Cyngor Llywodraethu AUC yn cynnwys Is-Gangellorion a Phrifathrawon pob SAU yng Nghymru. Mae AUC yn darparu adnodd arbenigol ynghylch pob agwedd ar addysg uwch yng Nghymru.

Mae prifysgolion yng Nghymru yn cynrychioli sector sy'n tyfu'n gyflym yn yr economi, gan gyfrannu cyfran gynyddol yn ein heconomi genedlaethol. Am bob **£1 miliwn** a fuddsoddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn AU yn 2005/06, gwelwyd prifysgolion yn cyfrannu **£5.3 miliwn** i'r economi Gymreig[1]. Llwyddodd y sector AU yng Nghymru i gyflawni'r canlynol:

- sicrhau **trosiant a oedd yn werth dros £1 biliwn yn 2006/07.**
- cynhyrchu **allbwn o £2 biliwn** i'r economi Gymreig, gan gynnwys effeithiau lluosi uniongyrchol.
- sicrhau **enillion allforio o £170 miliwn i Gymru,** gan gynnwys £65 miliwn gan grantiau UE/tramor a gwerth £104 miliwn mewn ffioedd a gwariant 'canlyniadol' gan fyfyrwyr rhyngwladol.
- ennill **cyfanswm o £121 miliwn mewn grantiau ymchwil** i Gymru a dros **£205 miliwn** gan gontractau a ffrydiau incwm eraill.

**Cyflwyniad**

1. Mae AUC yn croesawu'r gwaith craffu a dadansoddi polisi a wnaethpwyd yn ystod yr ymchwiliad saith mis hynod o bwysig hwn ynghylch cyfraniad economaidd AU yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad manwl hwn wedi taflu goleuni ar effaith amcangyfrifedig AU ar economi Cymru ac mae wedi codi pwyntiau pwysig ynghylch sut y gellir cynyddu'r effaith hon ymhellach. Roedd tystiolaeth gychwynnol AUC yn amlinellu'r dair brif ffordd y mae AU yn cyfrannu at economi Cymru – ein **cyfraniad uniongyrchol fel cyflogwyr a mentrau**, **ein**

[1] Ac eithrio'r ffigurau ynghylch trosiant, mae'r ystadegau yn yr adran hon yn ymwneud â 2005/06. Mae tystiolaeth gychwynnol AUC i Ymchwiliad PMD ynghylch Cyfraniad Economaidd AU ym mis Tachwedd 2007, yn cynnwys rhagor o fanylion am yr effeithiau hyn: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=66756&ds=11/2007.

**gwaith i uwchsgilio'r llafurlu**, a'r **wybodaeth a drosglwyddir gennym o'n gwaith ymchwil.** Mae SAUau unigol yng Nghymru wedi amlinellu'r llu o ffyrdd y maent yn gwneud hyn, gan amlinellu cynlluniau cyffrous ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

2. Mae AUC yn edrych ymlaen at adroddiad y pwyllgor, a mawr obeithiwn y bydd yn cynnig cynigion polisi cyhoeddus defnyddiol, yn ogystal â dadansoddiad adeiladol o berfformiad presennol AU, a chan amlygu arfer da a welir yng Nghymru, yn y DU ac ar draws y byd. Derbyniwn yr her o gydweithio'n agos gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisïau yn y Cynulliad, er mwyn sicrhau y gwireddir ein gweledigaeth a rennir ynghylch AU yn ysgogi datblygiad Economi wedi'i seilio ar Wybodaeth.

3. Fel y mae aelodau PMD wedi pwysleisio, nid yw'r ffocws allweddol ar gyfraniad economaidd AU yn tynnu sylw oddi ar y ffyrdd eraill y mae AU yn ychwanegu gwerth cyhoeddus i Gymru. Mae rôl AU fel cynhyrchwr cyfalaf diwylliannol a chymdeithasol, ac wrth hyrwyddo cymdeithas oleuedig a theg, yn rhan yr un mor greiddiol o genhadaeth prifysgol. Mae'r cenadaethau hyn yn gydategol ac yn cadarnhau ei gilydd.

4. Diben yr ail gyflwyniad hwn i'r ymchwiliad yw amlinellu datblygiadau pwysig penodol a welwyd ers y cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol AUC ym mis Tachwedd 2007, ac ymateb i'r pwyllgor ynghylch pynciau penodol a chynnig rhai cynigion polisi i'r pwyllgor eu hystyried. Dylid darllen y cyflwyniad hwn ar y cyd â'n tystiolaeth gychwynnol, a'i ddarllen law yn llaw â chyflwyniadau a wnaethpwyd gan sefydliadau sy'n aelodau o AUC, gan nad ydym yn bwriadu ailadrodd yr holl bwyntiau a wnaethpwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol.

### Datblygiadau Allweddol Ers I'r Ymchwiliad Gychwyn

5. Mae nifer o ddatblygiadau pwysig wedi digwydd ar draws y sector ers i AUC gyflwyno'i dystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol, ac fe allai'r rhain fod yn ddatblygiadau o bwys ym marn y pwyllgor. Maent yn cynnwys:

#### i). Cytundeb ynghylch prosiectau Cronfeydd Strwythurol ar draws y sector

6. Dan gylch awdurdod AUC, mae'r sector AU yng Nghymru wedi cytuno ar **chwe phrosiect ar draws y sector ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd,** dan y Rhaglen Gydgyfeirio. Os bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cymeradwyo'r prosiectau hyn, bydd pob SAU yn cymryd rhan ynddynt, gan gynrychioli cryn gydweithio rhwng prifysgolion yng Nghymru. Mae'r prosiectau yn delio â rhai o'r cwestiynau polisi allweddol a godwyd yn yr ymchwiliad ac yn strategaeth sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'r chwe phrosiect yn sicrhau gweithgarwch ehangu yn y meysydd canlynol:

- Astudio ar lefel Meistr er mwyn sicrhau sgiliau lefel 5.
- Astudio ar lefel Doethuriaeth er mwyn sicrhau allbynnau ymchwil ychwanegol y gellir trosglwyddo eu gweithrediad.
- Graddau Sylfaen sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd.
- Dysgu seiliedig ar waith.

- Gweithgarwch entrepreneuraidd i fyfyrwyr (SPEED Cymru).
- Sgiliau Cymraeg i oedolion.

**ii). Cronfa Drosglwyddo Gwybodaeth newydd, bwysig – 'A4B'**

7. Ym mis Chwefror 2008, cymeradwywyd prosiect ERDF pwysig newydd gan WEFO sy'n ymwneud â **rhaglen integredig newydd ar gyfer rhyngwyneb academaidd/busnes, o'r enw 'A4B'** (Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes). A4B yw'r prosiect Cydgyfeirio mawr cyntaf i sicrhau cymeradwyaeth WEFO, a nod y ddau brosiect yn A4B yw cyfuno'r gorau o blith y modelau a gynrychiolir yn CETICs, Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (PTGau) a ffyrdd eraill o drosglwyddo gwybodaeth. Mae'r prosiect chwe blynedd hwn, sy'n werth £50m, yn cynnwys cynigion i achredu PTGau, sefydlu porthol academaidd/diwydiannol ar y we i hwyluso trefniadau gwell er mwyn trosglwyddo technoleg a chreu modelau arfer gorau ar gyfer masnacheiddio IP yng Nghymru.

**iii). Gweithredu'r Adolygiad Annibynnol o Fasnacheiddio yng Nghymru**

8. Mae AUC yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i fynd ag argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Fasnacheiddio yng Nghymru yn eu blaen – Adolygiad Gibson. Bu SAUau yng Nghymru yn cymryd rhan yn y broses adolygu, gan fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol a chydweithredol wrth weithredu argymhellion yr adolygiad. Mae AUC wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a CCAUC i fynd ag argymhellion yr Adolygiad yn eu blaen. Bydd y sector AU yn peilota tri phanel cynghori, a bydd un panel yn cael ei sefydlu yn Sefydliad Darlledu Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd. Cred AUC bod gan baneli cynghori, sy'n cynnwys diwydianwyr ac arbenigwyr sy'n cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol, y potensial i ddatblygu gweithgarwch masnacheiddio gwybodaeth o brifysgolion yng Nghymru yn sylweddol. Mae AUC yn nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn mynd â rhai o argymhellion eraill yr Adolygiad yn eu blaen, gan gynnwys gwneud gwaith ar becyn cymorth arloesi a bwrw golwg bellach ar addysg entrepreneuriaeth, gyda chydweithrediad y sector AU yng Nghymru.

**Au Yn Ysgogi Ymchwil A Datblygu Yng Nghymru**

9. Mae pwysigrwydd AU fel ysgogydd allweddol ymchwil a datblygu yng Nghymru yn dod yn fwyfwy amlwg. Fel y nodwyd gennym yn ein tystiolaeth gychwynnol i'r pwyllgor[2], mae AU yng Nghymru yn perfformio'n well nag y mae mewn nifer o ranbarthau yn Lloegr y tu allan i Lundain a'r rhanbarthau 'triongl euraid' mewn rhai mynegeion rhyngwyneb busnes/AU allweddol. O ran mesurau penodol – megis incwm ymchwil ar y cyd – mae Cymru yn rhagori ar ranbarthau cyfatebol yn Lloegr, gan sicrhau 10% neu fwy o ran cyfanswm y buddsoddiad yn y DU yn y maes hwn, o'i gymharu â'n pwysoliad tybiannol o 5%. Yn ystod 2005/06, llwyddodd prifysgolion yng Nghymru i ddenu gwerth £326m mewn grantiau ymchwil, contractau a ffrydiau incwm eraill gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.

---

[2] Ym mharagraff 16 y cyflwyniad.

10. Mae'r lefel uchel o ran ymchwil a datblygu mewn AU yn cyferbynnu gyda'r lefel isel o ran Ymchwil a Datblygu ym maes Busnes a Menter (BERD) yng Nghymru, a oedd yn cyfateb ag 1.6% yn unig o'r cyfanswm yn y DU yn 2006 (sef £222m). Yn hyn o beth, mae'r sector AU yng Nghymru yn hoelen wyth o ran Ymchwil a Datblygu yn economi Cymru, ac mae hon yn ffaith sy'n cael ei chydnabod ym mholisi datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad erbyn hyn. Adlewyrchir hyn yn y cydweithio sydd bellach yn digwydd rhwng Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) a'r Adran Economi a Thrafnidiaeth, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth fuddsoddi mewn prosiectau arloesi a throsglwyddo gwybodaeth.

**Ymatebion I Bwyntiau A Godwyd Gan Y Pwyllgor**

**Gweithio gydag Addysg Bellach (AB) i ddarparu model dilyniant sgiliau**

11. Mae partneriaethau rhwng prifysgolion a cholegau AB yn hanfodol er mwyn sicrhau dilyniant esmwyth o ran datblygiad sgiliau dysgwyr. Mae AUC yn croesawu'r pwyslais yng *Nghynllun Cyflenwi Cymru'n Un* ar ddatblygu rhaglenni graddau Sylfaen newydd gyda chyflogwyr[3]. Rhaid i leoedd ar gyrsiau graddau Sylfaen (GS) wedi'u hariannu trwy CCAUC, fod yn ganolbwynt model dilyniant AU/AB cyfannol. Fel y nodwyd gennym yn ein tystiolaeth gychwynnol, mae deg prifysgol yn derbyn 6,500 o gofrestriadau mewn trefniadau partneriaeth gyda cholegau AB, gan gynnig 240 o gyrsiau CGC lefel 4 mewn 113 o feysydd cymhwyso. Bydd buddsoddiad ychwanegol trwy gyfrwng CCAUC i ddarparu GSau trwy gydweithio gyda chyflogwyr a cholegau AB, yn bwysig er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu cyflogwyr, ac er mwyn sicrhau dilyniant sgiliau i ddysgwyr seiliedig ar waith yn benodol. Mae'r sector AU yn dymuno gweld y model cynhyrchiol a chydweithredol ar gyfer y ddarpariaeth GSau yn parhau, ac nid yw'n dymuno'i weld yn cael ei ddisodli gan fodel wedi'i seilio ar gystadleuaeth rhwng colegau AB a SAUau.

**Rhaglen Technium**

12. Mae rhaglen Technium wedi helpu i hybu cwmnïau deilliannol mewn nifer o brifysgolion yn yr Ardal Gydgyfeirio. Mae asesiadau effaith cychwynnol o'r rhaglen wedi adrodd canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys 558 o swyddi yn 2007 (gan godi i 1,297 o swyddi amcangyfrifedig erbyn diwedd 2008)[4]. Dylid ystyried llwyddiant rhaglen Technium ar sail cyfnod hirach, yn enwedig o ystyried y ffaith mai newydd gychwyn ar eu gwaith y mae rhai Canolfannau o hyd. Er hyn, mae rhai Canolfannau eisoes wedi sicrhau cydnabyddiaeth am eu rhagoriaeth, megis Technium OpTIC yn Llanelwy, a sicrhaodd wobr RegioStarts y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar. Fel yr hysbyswyd y pwyllgor, bydd gwerthusiad ar raddfa fwy o waith rhaglen Technium yn adrodd i Lywodraeth y Cynulliad yn nes ymlaen yn ystod 2008.

**Gweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector (CSSau) i ddarparu gweithlu medrus**

13. Fel y mae nifer o aelodau AUC wedi nodi yn eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r pwyllgor, datblygwyd prosiectau a pherthnasoedd dwyochrog cynhyrchiol gyda CSSau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae AU yng Nghymru wedi gwneud yn dda i ffurfio cysylltiadau gyda'r 25 CSS, ac mae SAUau yn cyfranogi'n llawn yng Ngrŵp Cyfathrebu AU-CSS sy'n cael ei hwyluso gan CCAUC. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth lafar i'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2007, gwelwyd rhywfaint o amrywiaeth o ran gallu CSSau gwahanol i ymgysylltu'n llawn gyda SAUau unigol yng Nghymru – ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses arfaethedig o aildrwyddedu CSSau. Yn ogystal, mae gweithgarwch ymgysylltu CSSau unigol wedi cael ei reoli i raddau gan y gorgyffwrdd o ran y meysydd pwnc y mae SAUau a

---

[3] *Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un* (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru pwynt 130
http://new.wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/delivery/deliveryplan/deliverye.doc?lang=en

[4] Davies, Gareth & Abbey, James 'Technium Pan Wales Impact Assessment' (Institute for Policy & Economic Development, University of Texas in El Paso) Mawrth 2007.

CSSau unigol yn delio â nhw.  Bydd y sector AU yn parhau i ymgysylltu â CSSau yn uniongyrchol ac yn llawn wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf o ran eu datblygiad.

**Trawsnewid Yr Economi Trwy Gyfrwng Buddsoddiad Cywir Mewn Au**

14. Fel y mae cyflwyniadau unigol aelodau AUC wedi dangos, mae prifysgolion yn trawsnewid eu gweithgareddau er mwyn caniatáu ffocws mwy manwl fyth ar eu Trydedd Genhadaeth a'r agenda sgiliau.  Mae gallu prifysgolion unigol i sicrhau'r trawsnewid mewnol hwn i ymwneud yn gynyddol â 'maes busnes', yn cael ei rwystro gan lefelau buddsoddi annigonol gan y Cynulliad, yn ogystal â maint cynyddol y bwlch o ran y buddsoddiad mewn AU rhwng y prifysgolion yng Nghymru, a'r rhai yn yr Alban a Lloegr.

15. Ers i ni gyflwyno ein tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol, cyhoeddwyd tystiolaeth bellach gan CCAUC sy'n dwysáu pryder y sector ynghylch tanfuddsoddi a'i effaith ar ein gallu i gyflawni ein potensial i Gymru o ran ein rôl economaidd hanfodol.  Gwelwyd y bwlch buddsoddi mewn AU rhwng Cymru a Lloegr yn cynyddu gymaint â 53% mewn blwyddyn – o £40m yn 2004/05 i £61m yn 2005/06.  Yn ogystal, gwelwyd y bwlch buddsoddi amcangyfrifedig mewn AU rhwng Cymru a'r Alban yn cynyddu hefyd o £92m yn 2004/05 i £151m yn 2005/06 – cynnydd o 64%.  Yn ôl adroddiadau olynol CCAUC, mae'r bwlch buddsoddi cyfansymiol rhwng Cymru a Lloegr wedi cyrraedd £190 miliwn.  Roedd y buddsoddiad fesul myfyriwr gan y Cynulliad – a oedd yn gyfartal â'r buddsoddiad yn Lloegr yn 2001/02 – wedi troi'n ddiffyg o 15% fesul myfyriwr erbyn 2005/06.  Nid yw'r tanfuddsoddi hwn yn hanesyddol yn unig – bydd y grant addysg fesul myfyriwr mewn termau real yn cael ei ostwng yng Nghymru yn 2008/09, a bydd yn cynyddu ar gyfer prifysgolion yn Lloegr.  Mae'r diffyg hwn yn golygu bod Cymru yn ildio'r effeithiau cadarnhaol a'r effeithiau trawsnewidiol posibl y gallai gwaith ymchwil, arloesi ac uwchsgilio pellach mewn prifysgolion ei sicrhau.

**Rhai Cynigion Polisi I'w Hystyried Gan Y Pwyllgor**

16. Rhagwelwn y bydd argymhellion y pwyllgor yn bwysig ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Weinidog Addysg y Cynulliad yn ddiweddar i adolygu Addysg Uwch.  Byddai AUC yn gofyn i'r pwyllgor ystyried cynigion polisi penodol wrth iddo ystyried argymhellion ei adroddiad.

**i). Datblygu Polisi Gwyddoniaeth ag adnoddau llawn er mwyn ysgogi ymchwil ac arloesi**

17. Mae gan *'Polisi Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru'* (Tach 2006) Llywodraeth y Cynulliad, y potensial i helpu i wella cyflawniad gwyddonol prifysgolion yng Nghymru.  Fodd bynnag, llesteiriwyd gweithrediad y polisi gan diffyg unrhyw fuddsoddiad ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru.  Mae Gweinidogion y Cynulliad wedi nodi na cheir cronfa fuddsoddi newydd ar gyfer gwyddoniaeth i gynorthwyo'u polisi gwyddoniaeth newydd, o ganlyniad i'r ffaith nad yw hwn yn faes polisi cwbl ddatganoledig.  Felly, cred AUC y dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn cydweithio'n agos gyda'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a

Sgiliau i ystyried potensial cronfa fuddsoddi arloesi a gwyddoniaeth i Gymru ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau.

18. Cred AUC y dylai cydweithio pellach o ran polisi yn y maes hwn lle y ceir cyfrifoldeb polisi trawsffiniol, fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau yn ystod y cyfnod cyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU yn 2009 neu 2010. Mae'r angen am fuddsoddiad strategol gan Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn arbennig o bwysig gan bod nifer y Sefydliadau Ymchwil Cenedlaethol a ariannir gan Lywodraeth y DU yng Nghymru yn gymharol isel o'i gymharu â rhannau o Loegr. Byddai argymhelliad gan y pwyllgor ynghylch cronfa wyddoniaeth strategol yn cynrychioli ailgadarnhad pwysig o argymhelliad pwyllgor rhagflaenol PMD yn 2006 yn ei adroddiad ynghylch gwyddoniaeth, a oedd yn galw am gynnydd sylweddol o ran y buddsoddiad yn y seilwaith gwyddoniaeth yng Nghymru[5].

19. Mae diffyg buddsoddiad ychwanegol yn y sylfaen gwyddoniaeth yng Nghymru yn amlwg o ystyried yr awgrym y bydd yr ymrwymiad allweddol yng *Nghymru'n Un* at Academi Wyddoniaeth Genedlaethol – o leiaf yn 2008/09 – yn cael ei ddatblygu trwy ddefnyddio'r adnoddau presennol a roddwyd i CCAUC gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2008/09[6]. Os yw'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn mynd i ychwanegu gwerth go iawn, bydd yn rhaid darparu adnoddau ar ei chyfer, gan ddefnyddio buddsoddiad gan gronfeydd nad ydynt wedi cael eu brigdorri o'r dyraniadau AU sy'n bodoli eisoes ac sy'n hynod o gyfyngedig.

**ii). Dull gweithredu uchelgeisiol o ran yr agenda sgiliau**

20. Er mwyn i Gymru fanteisio'n llawn ar globaleiddio, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad fabwysiadu dull gweithredu uchelgeisiol o ran yr agenda sgiliau yng Nghymru, ynghyd â chynllun gweithredu i ddatblygu sgiliau uwch yng Nghymru. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth gychwynnol i'r pwyllgor[7], bydd newidiadau o ran y galw am lafur o ganlyniad i globaleiddio yn golygu y bydd mwyafrif helaeth y swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2014 yn codi mewn meysydd lle y bydd sgiliau graddedig yn allweddol. Mae AUC wedi mynegi pryder ynghylch yr awgrymiadau bod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mabwysiadu targedau llai uchelgeisiol o ran sgiliau uwch na'r rhai a argymhellwyd yn Adolygiad Leitch, neu'r rhai a fabwysiadwyd yn Lloegr. Mewn sefyllfa lle y mae Cymru eisoes ar ei hôl hi o'i chymharu â'r Alban a Lloegr o ran ei chyrhaeddiad sgiliau oedolion lefel 4 (26% yng Nghymru ar hyn o bryd, o'i gymharu â 29% yn Lloegr, a 32% yn yr Alban), mae'n ymddangos bod y dull gweithredu hwn yn golygu mai tynged Cymru fydd i fod ar ei hôl hi yn yr economi fyd-eang.

21. Roedd ymateb AUC i'r strategaeth sgiliau ddrafft, *Sgiliau sy'n gweithio i Gymru,* yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn cynllunio dull gweithredu

---

[5] Adroddiad y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau 'Adolygiad o'r Polisi Gwyddoniaeth yng Nghymru' (Medi 2006), tudalen 50, pwynt 10. http://www.assemblywales.org/606d2dc8f8b45dc7c9854cfec2b0d5ae.pdf
[6] Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2008/08 tud. 8.
[7] Tystiolaeth gychwynnol AUC, para.8-9.

uchelgeisiol ar gyfer yr agenda sgiliau yng Nghymru. Yn arbennig, roedd AUC yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad:

- i fabwysiadau'r **targed sgiliau oedolion o 40%,** sef y targed heriol a argymhellwyd yn Adolygiad Leitch ynghylch Sgiliau, er mwyn helpu i ddelio â'r newidiadau radical o ran patrwm y galw am lafur yng Nghymru;
- i ystyried pwysigrwydd cynyddol **sgiliau lefel 5** (graddau Meistr a Doethur) yn yr economi wybodaeth – lefel sgiliau na chyfeiriwyd ati yn *Sgiliau sy'n gweithio i Gymru*;
- **cynnydd wedi'i dargedu o ran niferoedd y myfyrwyr amser llawn** er mwyn sicrhau y bodlonir targedau Leitch ynghylch sgiliau – gan gynnwys lleoedd graddau Sylfaen wedi'u hariannu yn llawn mewn SAUau ar draws Cymru; ac
- i fynd ag argymhellion Adolygiad Graham **i ehangu gweithgarwch astudio rhan-amser** yn eu blaen er mwyn sicrhau y gellir cyflawni targedau uchelgeisiol ynghylch sgiliau oedolion.

**iii). Datblygiad Cyfryngau Pwrpasol (CPau) ar gyfer ymchwil ac arloesi**

22. Mae'r sector AU yn gweithio gyda'r Adran Economi a Thrafnidiaeth i ddatblygu modelau ar gyfer partneriaethau ymchwil ac arloesi mwy o faint rhwng prifysgolion a diwydiant. Mae'r gwaith hwn – a amlinellir yn fras yn ymateb Dirprwy Brif Weinidog Cymru i'r pwyllgor ynghylch yr Adolygiad Masnacheiddio – yn ddull gweithredu diddorol a hyrwyddwyd gan brifysgolion a'u partneriaid diwydiannol, ac a gynorthwywyd gan y Cynulliad. Mae AUC yn gweld potensial y model CP hwn fel ffordd ehangach o hwyluso ymchwil ac arloesi rhwng byd busnes a'r byd academaidd. Mae'r model yn ymwneud â sefydlu cwmnïau ar sail meddiant ar y cyd – gyda'r cwmni preifat a Llywodraeth y Cynulliad yn rhannu'r berchenogaeth – sy'n buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi gan brifysgolion, a chan rannu buddion ariannol trwy gyfrwng y CP er mwyn sicrhau elw teg i'r holl bartïon a gwerth i'r trethdalwr. Gallai'r model hwn – os bydd yr Adran Economi a Thrafnidiaeth yn darparu adnoddau cywir ar ei gyfer – helpu i ychwanegu at brosiectau llai a mwy tameidiog gan ddefnyddio prosiectau ar y cyd sy'n fwy ac y mae ganddynt y potensial i fod yn drawsnewidiol, gan gynnwys prifysgolion, diwydiant a Llywodraeth y Cynulliad.

**Casgliad**

23. Mae'r sector Addysg Uwch yng Nghymru wedi croesawu'r gwaith dadansoddi polisi a chraffu manwl a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Menter a Dysgu dros y saith mis diwethaf. Mae'r sector AU yn ymfalchïo yn y cyfraniad economaidd aruthrol a ddatgelwyd yn ystod yr ymchwiliad, ond mae'n cydnabod y gellir sicrhau datblygiadau a gwelliannau pellach yn y dyfodol.

24. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol, mae'n ymddangos bod Cymru allan ohoni o'i chymharu â 'gwledydd clyfar, bach' yn Ewrop gan nad yw'n ceisio blaenoriaethu buddsoddiad mewn AU er mwyn sicrhau mantais yn yr economi fyd-eang. Trwy geisio datblygu Economi Wybodaeth 'am y nesaf peth i ddim', mae perygl y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn colli busnes o'i chymharu ag economïau sy'n cystadlu yn ei herbyn ar draws

Ewrop ac yn y DU.  Fel yr ardal dlotaf a'r ardal leiaf gynhyrchiol ym Mhrydain[8], mae'r rheidrwydd i drawsnewid ein heconomi trwy gyfrwng sgiliau uwch ac arloesi yn hynod o allweddol.  Ceir cyfleoedd hollbwysig i'r Cynulliad fuddsoddi mewn polisi arloesi a gwyddoniaeth, trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau y bydd prifysgolion yn sicrhau cyflawniad yn eu cylch ar gyfer economi Cymru.

25. Mae ymchwiliad y pwyllgor wedi helpu'r sector prifysgolion i fod yn rhan ganolog o'r naratif datblygu economaidd yng Nghymru – rhywbeth nad oedd yn wir yn gynharach yn ystod bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol.  Mae prifysgolion yng Nghymru yn gobeithio y bydd y newid hwn a groesawir o ran iaith ac ymagwedd, yn arwain at bolisïau uchelgeisiol a lefelau buddsoddi digonol gan y Cynulliad.  Fel y mae'r pwyllgor wedi gweld a chlywed, mae'r sector AU eisoes yn arwain datblygiad Economi Wybodaeth yng Nghymru.  Mawr obeithiwn y bydd canfyddiadau ac argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch Cyfraniad Economaidd AU yn datblygu'r agenda allweddol hwn ymhellach mewn ffyrdd pwysig.

[8] Paragraff 10, tystiolaeth gychwynnol AUC i bwyllgor PMD (Tach 2007).